

Cronfa Cadernid Economaidd ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig (rhwng 10 a 249 o weithwyr) (Cam 2)

NODIADAU CYFARWYDDYD I YMGEISWYR

Darllenwch y cyfarwyddyd hwn yn ofalus cyn cwblhau. Bydd yr asesiad o'ch cais yn seiliedig ar y wybodaeth a rowch yn y cais hwn.

Mae'r nodiadau canlynol yn rhoi esboniad o rai agweddau ar y ffurflen gais a all fod angen eu hegluro. Cysylltwch â <https://busnescymru.llyw.cymru> os oes angen rhagor o arweiniad arnoch.

Gwybodaeth Gyffredinol

Nid ydych chi na'ch busnes yn gymwys i wneud cais am arian o Gam 2 o'r Gronfa Cadernid Economaidd os ydych wedi cael unrhyw arian o Gam 1.

Mae'n rhaid i'ch busnes fodloni'r diffiniad o Fusnes Bach a Chanolig i fod yn gymwys i gael arian o'r cynllun hwn.

I fod yn gymwys i gael cymorth gan y gronfa BBaChau, rhaid i'ch busnes fod ag o leiaf 10 o weithwyr

Diffiniad o BBaCh:

Busnes bach

- llai na 50 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn; a naill ai
- trosiant blynyddol o ddim mwy na €10 miliwn; neu
- cyfanswm mantolen o ddim mwy na €10 miliwn.

Busnes canolig

- llai na 250 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn; a naill ai
- trosiant blynyddol o ddim mwy na €50 miliwn; neu
- cyfanswm mantolen o ddim mwy na €43 miliwn.

Yn ogystal, i fod yn gymwys fel Busnes Bach neu Ganolig

- ni ddylai mwy na 25% o'r busnes fod ym mherchnogaeth un neu fwy o berchenogion nad ydynt wedi'u dynodi'n BBaChau (mae corfforaethau buddsoddi cyhoeddus a chwmnïau cyfalaf menter wedi'u heithrio o'r trothwy 25% fel y mae buddsoddwyr sefydliadol ar yr amod nad oes ganddynt unrhyw reolaeth dros y BBaCh);
- os yw eich busnes yn berchen ar fwy na 25% o fusnesau eraill bydd angen i ni ystyried hyn hefyd wrth asesu eich statws BBaCh;
- os yw busnes nad yw'n BBaCh yn rheoli eich busnes drwy hawliau cyfreithiol neu gytundebol, gall hyn effeithio ar eich statws fel BBaCh;

- os yw perchnogaeth busnes nad yw'n BBaCh o'ch busnes (neu eich perchnogaeth chi o fusnes nad yw'n BBaCh) rhwng 25% a 50%, efallai y bydd eich busnes yn dal i fod yn gymwys mewn rhai achosion fel BBaCh;
- os mai dim ond yn ddiweddar yr aethoch y tu hwnt i'r trothwyon cyflogaeth, trosiant neu gyfanswm mantolen, gallech fod yn gymwys o hyd.

Nid yw busnesau sydd â'u pencadlys mewn gwledydd sy'n hafanau treth 100% yn gymwys i gael arian gan y Gronfa Cadernid Economaidd. At ddibenion y cynllun hwn, dyma'r gwledydd sy'n hafanau treth 100%:

- Ynysoedd Prydeinig y Wryf
- Bermwda
- Ynysoedd Cayman
- Ynysoedd y Bahamas
- Ynys Manaw
- Ynysoedd Turks a Caicos
- Anguilla

Eich Manylion Personol

Rhaid i'r cais gael ei gwblhau gan un o Lofnodwyr Awdurdodedig y busnes. Gall Llofnodwr Awdurdodedig fod yn un o'r canlynol:

- Cyfarwyddwr: cyfarwyddwr cofrestredig cwmni;
- Ymddiriedolwr: ymddiriedolwr cofrestredig elusen;
- Partner: partner/aelod dynodedig o bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu bartner cyfreithiol o fewn busnes;
- Perchennog: perchennog busnes.

Am eich busnes

Rhif TAW y DU – i fod yn gymwys i gael cymorth, rhaid i chi naill ai fod yn fusnes sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW neu'n fusnes wedi'i eithrio o dalu TAW gyda throsiant o £85 mil neu fwy.

Rhif cofrestru a ddarperir gan Dŷ'r Cwmnïau (CRN), y Comisiwn Elusennau, y Gofrestr Gyhoeddus ar gyfer Cwmnïau Cydfuddiannol a chyrrff statudol a rheoliadol eraill y mae'n rhaid i chi ffeilio cyfrifon a manylion aelodaeth blynyddol gyda nhw.

Swyddi cyfwerth ag amser llawn - Dyma nifer y swyddi amser llawn yn eich sefydliad. Swydd amser llawn yw un o 30 awr neu fwy'r wythnos; swydd **ran-amser** yw un 15 awr yr wythnos o leiaf; mae dwy swydd ran-amser yn cyfrif fel un swydd cyfwerth ag amser llawn. Nid ydym yn derbyn contractau dim oriau fel swyddi parhaol cymwys.

I gyfrifo cyfanswm y swyddi cyfwerth ag amser llawn, rhannwch nifer y gweithwyr rhan-amser â 2 a'u hychwanegu at nifer y gweithwyr amser llawn.

Enghraifft:

10 o gyflogeion rhan-amser = 5 wedi'i ychwanegu at 10 o gyflogeion llawn amser yn hafal i 15 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn.

Bydd nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a fydd yn cael eu diogelu yn rhan o'r broses o gyfrifo swm y cyllid a ddyfernir:

Trosiant/Mantolen: Rhwch y wybodaeth ariannol o'r cyfrifon statudol diweddaraf sydd ar gael, neu os nad ydynt ar gael, rhwch y wybodaeth o'r cyfrifon rheoli.

Effaith COVID-19 ar eich busnes

Amlinellwch unrhyw fuddion i fusnesau eraill neu i'r gymuned ehangach: Dylai'r adran hon roi amlinelliad byr o'r cyfraniad ehangach y bydd y prosiect yn ei wneud i'r rhanbarth ac i Gymru. Gallai hyn gynnwys manteision sy'n ymestyn i fusnesau eraill, cadwyni cyflenwi lleol, cyflogaeth gysylltiedig a manteision cymdeithasol a chymunedol ehangach. Yn ogystal, mae unrhyw fanteision sy'n gysylltiedig â mwy o weithgarwch ymchwil a datblygu, arloesi, potensial allforio, mwy o gynhyrchiant, amrywiaeth a chydraddoldeb, sgiliau a hyfforddiant, cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi a chynaliadwyedd amgylcheddol (gan gynnwys manylion unrhyw arbedion ynni, arbedion mewn gwastraff masnachol a diwydiannol, a gostyngiad yn y defnydd o ddŵr). Dylech ddarparu manylion am unrhyw Safonau Ansawdd ac Achrediadau sydd gan y busnes eisoes hefyd.

Gwybodaeth am Gyflogaeth

Mae **swyddi a ddiogelwyd** yn rhai a fyddai wedi cael eu colli heb y grant rydych yn gwneud cais amdano ac a fydd yn parhau ar waith am o leiaf 12 mis o ddyddiad talu unrhyw gyllid. Bydd y wybodaeth a ddarperir yn yr adran hon yn cael ei defnyddio i gyfrifo gwerth am arian (gweler tudalen 6 isod) a bydd yn sail i unrhyw ddyfarniad grant.

Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol: yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol yw'r isafswm tâl yr awr y mae bron pob gweithiwr yn gymwys i'w gael yn ôl y gyfraith. O Ebrill 2016, cyflwynwyd Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer gweithwyr 25 oed a hŷn, ar draws y DU. Bydd yr Isafswm Cyflog yn dal i fod yn berthnasol i weithwyr 24 oed ac iau. Mae'n drosedd i gyflogwyr beidio â thalu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol i rywun, fel y bo'n briodol neu i ffugio cofnodion taliadau. Os nad ydych yn talu'r Isafswm Cenedlaethol/Cyflog Byw Cenedlaethol ni allwn ystyried ariannu eich prosiect.

Os daw'n amlwg yn ystod proses y grant fod cyflogau'n is na'r gofynion cyfreithiol hyn, byddai cymorth ariannol yn cael ei atal, ei adennill a byddai Llywodraeth Cymru yn hysbysu CThEM.

Mae rhagor o ganllawiau ar gyfraddau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol ar gael yn: <https://www.gov.uk/national-minimum-wage-rates>

Y Cyflog Byw: Mae'r Cyflog Byw yn gyfradd fesul awr wirfoddol a bennir gan y Sefydliad Cyflog Byw (www.livingwage.org.uk) yn seiliedig ar gostau byw. Mae'r

Sefydliad Cyflog Byw yn annog sefydliadau ledled y DU, ym mhob sector, ac o bob maint, i ddod yn gyflogwyr cyflog byw achrededig
<https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion/y-sefydliad-cyflog-byw>

Disgrifiad o'r swyddi sydd i'w diogelu – Rhowch fanylion y math o swydd neu deitl y swydd (e.e. rheolwr shift; dylunydd; gweithredwr llinell gynhyrchu; peiriannydd). Dim ond personél parhaol sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn lleoliad y prosiect y dylid eu cynnwys. Peidiwch â chynnwys personél hunangyflogedig, isgcontractwyr neu dros dro. Gellir cyfrif swyddi tymhorol cyn belled â bod disgwyl i'r swydd ddigwydd eto'n ddi-ben-draw

Rhaid i bob swydd sydd i'w diogelu fod wedi'i lleoli yng Nghymru. Nid yw swyddi y tu allan i Gymru yn gymwys at ddibenion y cynllun.

Cyflog blynyddol sylfaenol gros: nid yw'n cynnwys goramser, taliadau bonws, pensiynau, lwfansau, cyfraniad yswiriant gwladol y cyflogwr, ac ati.

Gwariant Cymwys

Diben y Gronfa yw cefnogi busnesau bach a chanolig sydd â gwariant tymor byr a ysgwyddir o ganlyniad i'r achosion o Covid-19 nad oes cymorth arall ar gael ar ei gyfer (megis cymorth Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru yn ehangach a Banc Datblygu Cymru). Bwriad y gronfa yw ategu mesurau Covid-19 eraill i gynorthwyo busnesau, mentrau cymdeithasol a sefydliadau elusennol yng Nghymru.

Rhaid i'r costau a gynhwysir yn y cais hwn fod yn gysylltiedig â busnesau sy'n gweithredu yng Nghymru. Nid yw costau gweithrediadau y tu allan i Gymru yn gymwys at ddibenion y cynllun hwn.

- **Nid yw** ceisiadau i ddefnyddio'r arian grant hwn i ad-dalu dyledion busnes presennol yn cael eu hystyried yn gost gymwys at ddibenion y cynllun hwn.
- **Nid yw** ceisiadau i gefnogi unrhyw gostau diswyddo yn gostau cymwys at ddibenion y cynllun hwn.
- **Nid yw** ceisiadau i gefnogi unrhyw gostau tâl/cyflog/Cynllun Cadw Swyddi ychwanegol yn gostau cymwys at ddibenion y cynllun hwn.
- **Nid yw** ceisiadau i gynorthwyo gyda chostau cyfarpar diogelu personol a chostau addasiadau penodol i fusnesau er mwyn eu helpu i ddychwelyd i'r gwaith yn gostau cymwys at ddibenion y cynllun hwn.

Cymorth Gwladwriaethol

Rhowch fanylion unrhyw arian arall y mae eich busnes wedi'i dderbyn.

Cadarnhad o Gymorth Gwladwriaethol a dderbyniwyd o dan Fframwaith Dros Dro COVID-19 ar gyfer Awdurdodau'r DU a Statws Cwmni mewn Trafferthion

Yn dilyn achosion o'r Coronafeirws, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cymeradwyo cynlluniau i gynorthwyo busnesau yr effeithiwyd arnynt gan yr achosion o'r Coronafeirws ar sail eu Fframwaith Dros Dro, gan gynnwys mesur Fframwaith Dros Dro Covid-19 ar gyfer y DU.

Uchafswm y cymorth y gall cwmni ei gael yw €800,000 (€120,000 y flwyddyn fesul cwmni sy'n weithredol yn y sector pysgodfeydd a dyframaeth neu €100,000 fesul cwmni sy'n weithredol ym maes cynhyrchu cynradd mewn cynhyrchion amaethyddol). Mae hyn ar draws holl fesurau'r DU o dan delerau Fframwaith Dros Dro'r Comisiwn Ewropeaidd.

Cyfrifir y swm mewn Ewros sy'n cyfateb i swm y cymorth Sterling gan ddefnyddio cyfradd gyfnewid y Comisiwn sy'n gymwys ar y dyddiad y cynigir y cymorth.¹

Bydd unrhyw gymorth a ddarperir o dan y mesur hwn yn berthnasol os ydych am wneud cais, neu os ydych wedi gwneud cais, am unrhyw gymorth arall a roddir yn seiliedig ar Fframwaith Dros Dro'r Comisiwn Ewropeaidd. Bydd angen i chi ddatgan y swm hwn i unrhyw gorff arall sy'n dyfarnu cymorth sy'n gofyn am wybodaeth gennych ar faint o gymorth rydych wedi'i dderbyn. Rhaid ichi gadw'r llythyr hwn am bedair blynedd ar ôl i'r DU drosglwyddo o'r UE a'i gyflwyno ar unrhyw gais gan awdurdodau cyhoeddus y DU neu'r Comisiwn Ewropeaidd.

Gellir rhoi cymorth i gwmnïau nad oeddent mewn trafferthion (o fewn ystyr Erthygl 2(18) y Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol²) ar 31 Rhagfyr 2019, ond a oedd yn wynebu anawsterau neu wedi mynd i drafferthion wedi hynny o ganlyniad i achosion o Covid-19.³

Mae'r cymorth hwn yn cynnwys unrhyw gymorth y gallech fod wedi'i gael o dan y rheoliad De Minimis hefyd sy'n caniatáu cymorth hyd at €200,000 i unrhyw sefydliad unigol dros gyfnod o dair blwyddyn ariannol (h.y. eich blwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol), ac unrhyw gymorth cymeradwy arall a gawsoch o dan reolau cymorth gwladwriaethol eraill, megis cymorth a roddwyd o dan y Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol.

Asesiad Cwmnïau mewn Trafferthion 'Ffynhonnell: Adran 2(18) Rheoliadau Eithriad Bloc Cyffredinol'⁴

(18) Ystyr 'cwmni mewn trafferthion' yw cwmni y mae o leiaf un o'r amgylchiadau canlynol yn digwydd mewn perthynas ag ef:

(a) Yn achos cwmni atebolrwydd cyfyngedig (ac eithrio BBaCh sydd wedi bod mewn bodolaeth am lai na thair blynedd neu, at ddibenion cymhwystra ar gyfer cymorth cyllid risg, BBaCh o fewn 7 mlynedd i'w werthiant masnachol cyntaf sy'n gymwys i gael buddsoddiadau cyllid risg yn dilyn diwydrwydd dyladwy gan y cyfryngwr ariannol dethol), lle mae mwy na hanner ei gyfalaf cyfranddaliadau tanysgrifedig wedi diflannu

¹ https://ec.europa.eu/info/funding-tenders/how-eu-funding-works/information-contractors-andbeneficiaries/exchange-rate-infoeuro_en

² <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX:02014R0651-20170710>

³ Os ydych chi'n gwmi mewn anhawster o fewn ystyr Erthygl 2(18) o'r Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol, mae'n bosibl y bydd gennych hawl o hyd i gael cymorth de minimis os ydych wedi derbyn llai na €200,000 mewn cymorth de minimis yn ystod y tair blynedd diwethaf. Dylech gysylltu â ni os ydych o'r farn y gallech fod yn gymwys i dderbyn cymorth de minimis ar y sail hon.

⁴ <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32014R0651&from=EN>

o ganlyniad i golledion cronedig. Mae hyn yn wir pan fydd didynnu colledion cronedig o gronfeydd wrth gefn (a'r holl elfennau eraill a ystyrir yn gyffredinol fel rhan o gronfeydd y cwmni ei hun) yn arwain at swm cronus negyddol sy'n fwy na hanner y cyfalaf cyfrannau tanysgrifedig. At ddibenion y ddarpariaeth hon, mae 'cwmni atebolrwydd cyfyngedig' yn cyfeirio'n benodol at y mathau o gwmni a grybwyllir yn Atodiad I o Gyfarwyddeb 2013/34/EU (1) ac mae 'cyfalaf cyfranddaliadau' yn cynnwys, lle y bo'n berthnasol, unrhyw breimiwm cyfranddaliadau.

(b) Yn achos cwmni lle mae gan o leiaf rai aelodau atebolrwydd diderfyn am ddyled y cwmni (ac eithrio BBaCh sydd wedi bod mewn bodolaeth am lai na thair blynedd neu, at ddibenion cymhwystra am gymorth cyllid risg, BBaCh o fewn 7 mlynedd o'i werthiant masnachol cyntaf sy'n gymwys ar gyfer buddsoddiadau cyllid risg yn dilyn diwydrwydd dyladwy gan y cyfryngwr ariannol dethol), lle mae mwy na hanner ei gyfalaf fel y'i dangosir yng nghyfrifon y cwmni wedi diflannu o ganlyniad i golledion cronedig. At ddibenion y ddarpariaeth hon, mae 'cwmni lle mae gan o leiaf rai aelodau atebolrwydd diderfyn am ddyled y cwmni' yn cyfeirio'n benodol at y mathau o gwmni a grybwyllir yn Atodiad II o Gyfarwyddeb 2013/34/EU.

(c) Pan fo'r cwmni'n destun achosion ansolfedd casgliadol neu'n bodloni'r meini prawf o dan ei gyfraith ddomestig am gael ei roi mewn trafodion ansolfedd casgliadol ar gais ei gredydwy.

(d) Pan fo'r cwmni wedi cael cymorth achub ac nad yw wedi ad-dalu'r benthygiad neu wedi terfynu'r warant eto neu wedi cael cymorth ailstrwythuro ac yn dal i fod yn destun cynllun ailstrwythuro.

(e) Yn achos cwmni nad yw'n BBaCh, lle, am y ddwy flynedd ddiwethaf: (1) Mae cymhareb dyled ar lyfrau'r cwmni i ecwiti wedi bod yn uwch na 7,5 a (2) mae cymhareb cwmipas llog EBITDA y cwmni wedi bod yn is na 1,0.

Faint o arian y mae angen i chi wneud cais amdano?

Mae lefel y cymorth sydd ar gael i bob ymgeisydd wedi'i seilio ar uchafswm o £2,500 fesul swydd cyfwerth ag amser llawn a ddiogelir, hyd at y cyfanswm gwariant cymwys.

Lefel y dyfarniad fydd yr isaf o naill ai wariant cymwys neu'r swm Gwerth am Arian neu'r swm y gwnaed cais amdano. Os ydych chi'n derbyn Grant Ardrethi Busnes, caiff hyn ei ddiynnu o lefel derfynol y dyfarniad. Gweler yr enghreifftiau isod

Mae'r cynllun hwn ar agor i geisiadau rhwng £25,000 a £100,000.

Enghreifftiau

Ym mhob enghraifft, mae'r busnes yn gwneud cais am yr uchafswm o £100 mil.

- Mae busnes yn gorfod wynebu £95,000 o gostau cymwys sy'n gysylltiedig â'r pandemig Covid-19 nad yw'n dod o dan gynlluniau eraill y DU. Mae'r busnes wedi cadarnhau y bydd yn diogelu 35 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Byddai uchafswm y grant yn cael ei gyfyngu i £87,500 (35 * £2,500).

- Mae busnes yn gorfod wynebu £58,000 o gostau cymwys sy'n gysylltiedig â'r pandemig Covid-19 nad yw'n dod o dan gynlluniau eraill y DU. Mae'r busnes wedi cadarnhau y bydd yn diogelu 35 o swyddi cyfwerth ag amser llawn . Byddai uchafswm y grant yn cael ei gyfyngu i £58,000 (100% o'r gwariant cymwys).
- Mae busnes yn gorfod wynebu £58,000 o gostau cymwys sy'n gysylltiedig â'r pandemig Covid-19 nad yw'n dod o dan gynlluniau eraill y DU. Mae'r busnes wedi cadarnhau y bydd yn diogelu 35 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Mae'r busnes yn llwyddo i gael Grant Ardrethi Busnes o £25 mil gan gynllun yr Awdurdod Lleol. Byddai uchafswm y grant yn £33,000 (100% o'r gwariant cymwys llai £25 mil Grant Ardrethi Busnes).